**EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**

**Rhif 89 – Unawd Cerdd Dant 19 – 25 oed**
Cywydd Coffa Ray (Detholiad Penodol) – Tudur Dylan Jones

Cainc: Gwenllian – Gwennant Pyrs (11222) – Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill

## Ray Gravell

Am unwaith, ar y Mynydd,
mor dawel, dawel yw'r dydd,
a thros orwel Cydweli
haul y nos a welwn ni,
y bore'i hun yn rhy brudd,
a'r lle hwn yn rhy llonydd.

Carai'i le, bob cwr o'i wlad,
a thaenai ei chwerthiniad
nes bod gwenau'r dagrau'n dod
o wynebau'i gydnabod,
a doi ei ddieithriaid o
yr un dydd yn ffrind iddo.

A'i draed ar Barc y Strade
âi'r dyn i'r gogledd a'r de;
yma ar hyd Cymru wedyn
doi'r 'West is Best' i bob un,
ac ni fu byw unrhyw ŵr
anwylach yn ganolwr.

Ond wrth i foi Gwendraeth Fach
rywfodd ein gwneud yn gryfach,
gŵyr pob un mai dyn mor deg
yw'r gŵr a wnaed o'r Garreg,
un Grav mor dyner o'i grud,
un Grav diguro hefyd.

Yn dal uwchlaw Cydweli
y cawr hwn a welwn ni,
yr un o hyd heibio i'r nos,
yn awr, ac yno i aros
mae enaid mawr y Mynydd
o'r enw Ray yno'n rhydd.

Tudur Dylan Jones